11.03.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
01286 674622

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

Sbin a sing-song o gwmpas Cymru gyda'r Welsh Whisperer

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Welsh Whisperer wedi dod yn wyneb amlwg ar draws Cymru gyda'i hiwmor ffraeth a'i ganeuon bachog. Mae e wedi cyfansoddi nifer o glasuron y sîn bop a gwerin Cymraeg, fel 'Loris Mansel Davies' a 'Ni'n Beilo Nawr', ac mae hefyd wedi gwneud ei farc yn y siartiau canu gwlad Prydeinig.

Mewn cyfres newydd sbon, **Welsh Whisperer: Ni'n Teithio Nawr**, sy'n dechrau ar 26 Mawrth, cawn neidio i wagen y 'Welsh' ac ymuno ag ef ar ei daith i ymweld â rhai o bentrefi cefn gwlad Cymru. Wrth ddod i adnabod rhai o hoelion wyth y cymunedau gwledig hynny, bydd cyfle i ddysgu ambell dric oddi wrth un neu ddau, siawns am gwpwl o beints, a bydd rhaid cael ambell i *sing-song* hefyd!

"Aethon ni draw i chwe ardal ar draws cefn gwlad Cymru; ardaloedd sydd falle ddim ar y teledu'n aml iawn, neu ardaloedd lle dwi wedi cael nosweithiau da yn y gorffennol" meddai'r Welsh Whisperer.

"Pwrpas mynd yna wedyn oedd cael cwrdd a rhai o'r cymeriadau sy'n byw 'na – pobl eto sydd ddim bob tro'n cael sylw. Dwi'n cwrdd â lot o'r bobl 'ma ar y *circut*, pan dwi'n mynd rownd yn canu, felly ro'n i moen rhoi dipyn bach o sylw iddyn nhw, a hefyd 'da'n ni di cael dysgu 'chydig bach am y pentrefi 'ma. Uchafbwynt y rhaglen yw cael perfformio – hwyl a 'chydig o *sing-song* ar y diwedd. Odden ni'n cyfansoddi cân ar y cyd gydag un o dalentau'r ardal bob tro. Mae'r rhaglen yn llawn o ganeuon hefyd!

"Fel arfer pan dwi'n mynd i lefydd fel dwi wedi bod, byddwn i'n mynd i dafarn neu neuadd – canolbwynt y pentre. Wrth gwrs, doedden ni methu neud e fel'na tro 'ma, felly odd e'n ddiddorol gweld faint o bobl oedd yn fodlon dod mas i gymryd rhan, achos roedden ni reit yng nghanol y cyfnod clo."

Yn y rhaglen gyntaf, bydd y Welsh Whisperer, sydd bellach yn byw ym Methesda, ger Bangor, yn teithio i lawr i'r gorllewin gwyllt ac i bentref Llanboidy, sydd dafliad carreg o Gwmfelin Fynach, lle cafodd ef ei hun ei fagu.

"Nes i wir fwynhau mynd nôl i Lanboidy, sydd reit ar bwys lle ges i'n magu. Roedd e'n grêt cael mynd i gwrdd â pobl fel Brian John yn y garej. Mae pawb yn yr ardal yn ei 'nabod e, ond efallai tu allan i *patch* Cwmfelin Mynach dyw e ddim yn enwog...eto. Ond gobeithio fydd e nawr ar ôl ymddangos yn canu gyda fi ar y rhaglen!"

Yn ogystal â Llanboidy, bydd y Welsh Whisperer yn ymweld â Sarn Mellteyrn, Llangeitho, Llanrhaeadr sir Ddinbych, Pontyberem, a Drefach Felindre.

Welsh Whisperer: Ni'n Teithio Nawr
Nos Wener 26 Mawrth 9.00, S4C
Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C

11.03.2021

Heledd Williams
Cyswllt ContactMae
01286 674622

Erthygl i'r Wasg **Press Release**

A spin and sing-song with the Welsh Whisperer

Over the last few years, the Welsh Whisperer has become a well-known face all over Wales with his witty sense of humour and his catchy tunes. He has written many classics of the Welsh pop and folk scene such as 'Loris Mansel Davies' and 'Ni'n Beilo Nawr', and he has even made his mark on the British country singing charts.

In a brand new series, **Welsh Whisperer: Ni'n Teithio Nawr**, (Welsh Whisperer: We're Travelling Now) which starts on 26 March, we climb aboard Welsh's wagon and join him on a journey around some of Wales's country villages. As we get to know some of the pillars of these communities, there will be an opportunity to learn a trick from one or two, a chance for a couple of pints and a good sing-song too!

"We went to six areas across the Welsh countryside; areas which aren't on the television very often, or areas where I've had good nights out in the past," said the Welsh Whisperer.

"The reason for going there was to meet some of the characters that live there – people, once again, who are rarely given any attention. I meet a lot of these people on the circuit, when I go round singing, so I wanted to give them some attention and we also get to learn a little bit about the villages."

"The high point of the programme will be to perform – a bit of fun and a sing-song – at the end. We write a song together with one of the local talents each time. The programme is full of songs!"

"Usually, when I go to places as I have been doing, I would go to the pub or the hall – the heart of the village. Of course, we couldn't do it that way this time, so it was interesting to see how many people were willing to come out and take part, because we were right in the middle of lockdown."

In the first programme, the Welsh Whisperer, who now lives in Bethesda, near Bangor will be travelling down to the wild west to the village of Llanboidy, which is a stone's throw from Cwmfelin Fynach, where he grew up.

"I really enjoyed going back to Llanboidy, which is very near where I was brought up. It was great to be able to go and meet people like Brian John at the garage. Everybody in the area knows him, but perhaps out of the Cwmfelin Mynach patch he isn't so well-known ... yet. But hopefully he will be after appearing on the programme singing with me.!

As well as Llanboidy, the Welsh Whisperer will be visiting Sarn Mellteyrn, Llangeitho, Llanrhaeadr in Denbighshire, Pontyberem and Drefach Felindre.

Welsh Whisperer: Ni'n Teithio Nawr
Friday 26 March 9.00, S4C
On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms
A Tinopolis production for S4C